# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15/09/2026 |
| **Pwnc:** | Masnachfreinio Bysiau – Llwybrau Bysiau Arfaethedig |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Ieuan Williams | Aelod portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Huw Percy | Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Fel rhan or gwaith o baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau, mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru, gan gynnwys Ynys Môn. disgwyliad bod y Cyngor yn cytuno'r llwybrau arfaethedig ar lefel gwleidyddol cyn i Trafnidiaeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt yn yr hydref.

Gan all hyn gael effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth cyhoeddus led led yr Ynys ac felly cymunedau ac unigolion sy'n ddibynnol ar y drafnidiaeth hynny, briodol i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1.1 Nodi bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn fel rhan o'u gwaith paratoi ar gyfer masnachfreinio.

1.2 Bod y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 09/10/2026, drwy gefnogi'r rhwydwaith bysiau arfaethedig y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ddatblygu.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Mae'r argymhelliad yn cefnogi amcan gofal cymdeithasol a llesiant gan fod llwybrau bysiau yn galluogi pobl sydd ddim â mynediad i gar allu cael mynediad i adnoddau cymunedol a cadw annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella eu iechyd a'i llesiant.

Mae'r argymhelliad yn cefnogi amcan Newid Hinsawdd y Cyngor i ddatblygu a chyflawni cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy drwy rhoi mwy o sicrwydd a rheolaeth dros lwybrau bysiau cyhoeddus a rhoi cyfleon i unigolion deithio mewn ffordd fwy gwyrdd na theithio mewn car.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Masnachfreinio Bysiau
2. Y rhwydwaith arfaethedig
3. Gwasanaeth cludiant cymunedol

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

1.1 Fe gyflwynwyd Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) gerbron y Senedd 31/03/2025 ac mae'r cefndir i masnachfreinio wedi ei gynnwys yn atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

1.2 Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae dros 60 o weithredwyr yn rhedeg gwasanaethau bysiau lleol. Mae tua 20 o weithredwyr yn darparu gwasanaethau trafnidiaeth eraill sy'n rhedeg o dan bermit neu drwydded tacsi. Gweithredir gwasanaethau bysiau lleol Môn gan 6 gweithredwr ar hyn o bryd, gyda 5 ohonynt yn BBaCh.

1.3 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi adolygu y ddarpariaeth presennol mewn cydweithrediad gyda swyddogion y Cyngor ac wedi datblygu rhwydwaith arfaethedig ar gyfer Ynys Môn. Mae'r rhwydwaith arfaethedig yn cynnig 9 gwasanaeth bws yn lle'r 30 sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Y bwriad yw y bydd Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rôl y gyfundrefn arweiniol mewn cydweithrediad â'r Cyd Bwyllgorau Corfforaethol a'r Cynghorau Sir.

1.4 Mae y 9 gwasanaeth arfaethedig yn seiliedig ar amserlenni y 30 presennol ac yn sicrhau na fydd unrhyw ardal, sydd gyda gwasanaeth bws ar hyn o bryd, wedi ei adael heb wasanaeth. Mae manylion y 9 gwasanaeth yn Atodiad 2, ynghyd â sylwadau ar yr effaith ddisgwyliedig. Y prif newid yw fod TC yn gweld cyfle i gynnig bysiau o arfordir i arfordir ar draws Ynys Mon ac fod hyn ar sail gwaith ymchwil i batrymau symud unigolion o ddata ffonau symudol. Mae Swyddogion o'r farn fod y ddarpariaeth yn rhoi datrysiad cystal, os nad gwell, i'r mwyafrif o drigolion, ond mae angen cydnabod na fydd y rhwydwaith arfaethedig yn cyfarch pob galw

1.5 Yn ychwanegol i'r ddarpariaeth bresennol, mae'r ymgynghoriad yn cynnig bysiau fflecsi ar gyfer rhai ardaloedd gwledig iawn lle nad oes gwasanaeth bws ar hyn o bryd, ac lle nad yw Trafnidiaeth Cymru yn ystyried y byddai bws traddodiadol yn

cynnig datrysiad addas a chynaliadwy oherwydd y niferoedd isel sydd wedi defnyddio cludiant cyhoeddus sydd wedi ei ddarparu'n hanesyddol.

1.6 Mae'r Cyngor eisoes yn cefnogi rhai grwpiau cymunedol mewn ardaloedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan fws traddodiadol i ddarparu a datblygu cludiant cymunedol er mwyn cefnogi'r gwasanaeth bws a chysylltu â'r llwybrau bws traddodiadol. Bwriad y Cyngor yw parhau i gefnogi'r grwpiau cymunedol hyn ac ehangu'r trefniadau hyn i ardaloedd eraill er mwyn sicrhau bod gwasanaeth mwy cyflawn yn ei le. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur sut bydd y broses yn cyfrannu at y trefniadau yma a phwy fydd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau yma ar ôl i'r broses masnachfreinio ddechrau.

1.7 Gall gweld yr ymgynghoriad yn atodiad 3 o'r adroddiad.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☒Do
☐Naddo

Os naddo, eglurwch pam:

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

*Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*

Gall arwain at fanteision i rhai sydd ag anabledd ac sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus gan y bydd gwasanaeth integredig yn gwneud teithio yn haws a bydd masnachfreinio yn rhoi mwy o sicrwydd o rhan gwasanaeth tymor hir.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

*Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*

Gall arwain at fanteision i rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol ac sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus gan y bydd gwasanaeth integredig yn gwneud teithio yn haws a bydd masnachfreinio yn rhoi mwy o sicrwydd o rhan gwasanaeth tymor hir.

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| *Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*<br><br>Mae cynllun asesu'r Gymraeg wedi ei baratoi a nid oes unrhyw effaith sylweddol wedi ei adnabod. |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut<br><br>Ystyrir fod cael rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus sydd wedi ei integreiddio yn cael effaith bositif ar dargedau sero net ac mae ymgynghoriad Trafnidiaeth Cymru yn gam tuag at ffurfio rhwydwaith o'r fath. |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Mae'r darpariaeth presennol o fewn y grantiau sy'n cael ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru ond gan mae trefniant rhanbarthol bydd masnachfreinio bysus, y rhanbarth yn hytrach na'r Cyngor bydd derbyn y grantiau wrth symud ymlaen. Disgwylir y bydd Cynghorau ledled Cymru yn parhau i gyfrannu elfen o'u cyllideb craidd tuag at gludiant cyhoeddus bydd Trafnidiaeth Cymru yn ddarparu, a bydd angen i Trafnidiaeth Cymru ac y Cyngor ar sail unigol gytuno beth fydd pob Cyngor yn ei dderbyn o ran oriau gweithredu gwasanaethau a'r milltiroedd sydd ynghlwm â gweithredu'r gwasanaethau hynny.<br><br>Y disgwyliad yw y bydd y Cyngor angen darparu rhan o'r cyllid ac adnodd i gefnogi'r  bysiau cymunedol bydd yn cefnogi'r gwasanaeth y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ddarparu. |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1: Cefndir Masnachfreinio<br><br>Atodiad 2: Llwybrau Arfaethedig<br><br>Atodiad 3: Ymgynghoriad Trafnidiaeth Cymru<br>Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru \| Trafnidiaeth Cymru |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Iwan Cadwaladr, Uwch Swyddog Trafnidiaeth & Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo |

Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021:
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf

Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru:
Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cmru) 2015:
deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf